

Deddf Cyllid Troseddol 2017



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Perchennog	Y Prif Swyddog Ariannol
Rhif y fersiwn	6.0
Dyddiad Cymeradwyo	Tachwedd 2025
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg
Dyddiad dod i rym	Tachwedd 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Tachwedd 2027

Polisi Cydymffurfio â Deddf Cyllid Troseddol 2017

1. Diben a Chwmpas

Mae Prifysgol Abertawe, gan gynnwys ei his-gwmnïau (y Brifysgol), yn ymrwymedig i gynnal ei gweithrediadau academiaidd, gweinyddol a masnachol mewn modd moesegol sy'n ufuddhau i'r gyfraith ac ni fydd yn goddef gweithredoedd troseddol o hwyluso efadu trethi gan ei chyflogeion, ei his-gontractwyr neu gan unrhyw barti sy'n cysylltiedig â hi unrhyw le yn y byd.

Diben y polisi hwn yw amlinellu cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r sawl sy'n gweithio iddi, p'un a yw hynny fel swyddog, cyflogai, gweithiwr, is-gontractwr, asiant neu mewn unrhyw rinwedd arall, wrth ddilyn a glynu wrth safbwynt y Brifysgol ynghylch hwyluso efadu trethi'n droseddol.

2. Deddf Cyllid Troseddol 2017 (CFA 2017)

Mae rhan 3 o CFA 2017 yn cyflwyno trosedd gorfforaethol, sef methiant i atal hwyluso efadu trethi.

Mae hyn yn gymwys i'r Brifysgol ac mae'n gymwys mewn sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol yn methu atal 'Personau Cysylltiedig' rhag cynorthwyo parti arall i efadu trethi.

Mae 'Personau Cysylltiedig' yn cynnwys swyddogion, cyflogeion, gweithwyr, asiantau, is-gontractwyr y Brifysgol neu bobl eraill neu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y Brifysgol neu ar ei rhan.

Mae'n drosedd i unrhyw un efadu talu treth o unrhyw fath, ac i helpu rhywun i wneud hyn. Gallai unrhyw unigolyn sy'n cael ei ganfod yn euog o hyn wynebu achos troseddol o dan ddeddfwriaeth bresennol.

Yn unol â CFA 2017, os canfyddir bod:

- Trethdalwr yn y DU neu dramor (fel unigolyn neu endid) yn efadu trethi'n droseddol o dan y gyfraith bresennol A
- Bod 'Person sy'n Gysylltiedig' â'r Brifysgol yn gweithredu'n droseddol i hwyluso'r drosedd hon AC
- Os oes methiant i atal y person cysylltiedig rhag hwyluso efadu trethi

bydd y Brifysgol yn cael ei chyhuddo'n awtomatig o'r drosedd o fethu atal ei chynrychiolwyr rhag cyflawni'r drosedd hwyluso.

Gallai'r Brifysgol wynebu ymchwiliad ac erlyniad troseddol ac os yw'n cael ei chanfod yn euog, gallai wynebu euogfarn droseddol a dirwy ddiderfyn; gallai gael ei gwahardd rhag tendro am gontractau cyhoeddus, gallai fod niwed i'w henw da a chanlyniadau rheoleiddiol.

Nid oes lefel de minimis yn gysylltiedig â'r drosedd gorfforaethol.

Ceir enghreifftiau yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon o sefyllfaoedd lle gellid ystyried bod Personau Cysylltiedig yn cynorthwyo trydydd partion i gyflawni'r drosedd o efadu trethi.

3. Rhwymedigaethau cyflogeion a phersonau cysylltiedig eraill

Atgoffir cyflogeion a phersonau cysylltiedig ei bod hi'n ofynnol iddynt bob amser ufuddhau i bolisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol, felly dylent sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r cynnwys a'r enghreifftiau.

Rhaid i'r holl gyflogeion gwblhau'r hyfforddiant hanfodol ar-lein ac mae methu gwneud hyn yn peri risg i gyflogeion a'r Brifysgol.

Gall methu cydymffurfio â'r polisiâu a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Polisi hwn arwain at gamau disgyblu i gyflogeion a therfynu contract 'Personau Cysylltiedig'.

Os bydd cyflogeion a phersonau cysylltiedig yn poeni bod cyflogai arall neu berson cysylltiedig yn hwyluso efadu trethi gan drydydd parti, dylai gysylltu â'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu ar unwaith.

Gall cyflogeion godi pryderon hefyd o dan y gweithdrefnau chwythu'r chwiban a amlinellir ym Mholisi Datgelu er Budd y Cyhoedd y Brifysgol.

4. Swyddog Cyfrifol

Mae'r Brifysgol wedi enwebu'r Prif Swyddog Ariannol fel y Swyddog Cyfrifol ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am wybodaeth, hyfforddiant ac ymholiadau ynghylch CFA 2017 yn ein sefydliad. Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol ynghylch y Ddeddf hon, neu bryderon ynghylch hwyluso efadu trethi at sylw'r Prif Swyddog Ariannol.

5. Asesiad Risg

Mae'r Brifysgol wedi cynnal adolygiad o'i risgiau a'i phrosesau a'i gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau y cymerir yr holl gamau priodol i atal hwyluso efadu trethi. Mae'n cynnal cofrestr o risgiau posib o ran hwyluso efadu trethi gan ei chyflogeion a phobl sy'n gysylltiedig â hi, ac yn rhestru mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny ac unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol i wella'r mesurau rheoli hynny. Caiff y gofrestr hon ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd ac yn ôl yr angen.

6. Cyhoeddi arweiniad

Mae'r Brifysgol yn adolygu arweiniad a deddfwriaeth mewn perthynas â CFA 2017 yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddi bolisi priodol ar gyfer CFA 2017. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried hyfforddiant priodol ar gyfer cyflogeion.

Atodiad 1 - Enghreifftiau o helpu ac annog rhywun i weithredu'n droseddol i efadu trethi

At ddiben darluniadol, rhoddir enghreifftiau isod o sefyllfaoedd pan allai un o gyflogeion y Brifysgol neu berson cysylltiedig fod yn euog o gyflawni trosedd efadu trethi ac felly gallai'r Brifysgol ei hun fod yn euog hefyd:

1. Rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn fwriadol ar yr Holiadur statws Cyflogaeth.

Mae Cyflenwr yn dymuno cael ei drin fel contractwr hunangyflogedig fel bod taliadau sy'n cael eu gwneud i'r Cyflenwr gan y Brifysgol yn rhai gros, a gall efadu talu'r dreth incwm a'r rhwymedigaethau yswiriant gwladol priodol. Gan wybod hyn, mae un o gyflogeion y Brifysgol yn helpu'r Cyflenwr i efadu treth drwy ddarparu gwybodaeth anwir ar yr Holiadur Statws Cyflogaeth a ddefnyddir gan y Brifysgol i asesu a ellir ystyried bod Cyflenwr o'r fath yn hunangyflogedig at ddibenion treth.

Drwy ddarparu gwybodaeth anwir fel hyn, mae'r cyflogai yn y Brifysgol yn cyflawni trosedd oherwydd ei fod wedi cynorthwyo trydydd parti i weithredu'n droseddol i efadu trethi.

2. Cydgyllwynio â phrifysgol arall i gofnodi gwybodaeth anwir am wasanaethau a gyflenwyd i'r brifysgol honno i honni eu bod y tu allan i gwmpas TAW:

Mae Prifysgol X wedi gofyn i Dîm Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe gyflenwi gwasanaethau dadansoddi data i Brifysgol X mewn perthynas â chyllid grant a ddyfarnwyd i'r brifysgol honno, ac mae'r cyllid grant y tu allan i gwmpas TAW. O ganlyniad, nid yw Prifysgol X yn gallu adennill unrhyw TAW y gallai Prifysgol Abertawe ei chodi ar Brifysgol X am y gwasanaeth dadansoddi data. Mae Prifysgol X yn gofyn i Brifysgol Abertawe wneud datganiad anwir yn y Cytundeb rhyngddynt, i'r perwyl bod y ddwy brifysgol yn gweithredu fel Cydweithredwyr ar y prosiect (pan fo hyn i'r gwrthwyneb i'r wir sefyllfa). Mae'r tîm ym Mhrifysgol Abertawe'n dod i'r casgliad bod Prifysgol X yn gofyn hyn er mwyn efadu talu TAW ond maent yn llofnodi'r ddogfen er gwaethaf hyn heb wneud unrhyw ymholiadau pellach na cheisio cymorth yn fewnol.

Mae cyflogeion ymchwil Prifysgol Abertawe yn cyflawni trosedd am eu bod wedi cytuno i lofnodi Cytundeb, gan wybod bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn anwir ac y gwnaethpwyd hynny i alluogi Prifysgol X i efadu talu'r rhwymedigaeth TAW gysylltiedig ar wasanaethau Prifysgol Abertawe.

3. Helpu sefydliad addysg tramor i osgoi treth dramor ar daliadau a wnaed ganddynt i Brifysgol Abertawe:

Mae Cytundeb ar waith rhwng y Brifysgol a sefydliad addysg tramor, lle mae'r Brifysgol yn cyflenwi staff addysgu i'r sefydliad tramor ar gyfer rhaglen benodol. Mae'r Cytundeb rhwng y partion yn datgan y dylai'r sefydliad tramor fod yn gyfrifol am gost unrhyw drethi lleol sy'n cael eu didynnu wrth y ffynhonnell (*withholding taxes*) a all fod yn ddyledus ar daliadau a wnaed ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae'r sefydliad tramor yn dweud wrth gyflogai ym Mhrifysgol Abertawe, os yw'n rhoi disgrifiad anwir (er enghraifft gwasanaethau marchnata) ar yr anfoneb yn hytrach na'r disgrifiad cywir, sef 'gwasanaethau addysgu' na fydd rhaid iddynt dalu'r dreth a ddidynnir wrth y ffynhonnell i'w hawdurdod trethi tramor. Mae'r cyflogai yn y Brifysgol yn cytuno i wneud hyn.

Mae'r cyflogai yn y Brifysgol wedi cyflawni gweithred droseddol drwy roi gwybodaeth anwir ar yr anfoneb werthu, er nad treth yn y DU sy'n cael ei hefadu ond treth dramor.

4. Helpu cyflogai arall neu drydydd parti i hawlio taliad sy'n ddyledus iddo fel traul yn hytrach na math arall o daliad y byddai'n rhaid talu treth arno.

Mae Cyfarwyddwr yn y Brifysgol yn cytuno i ganiatáu i gyflogai hawlio milltiroedd o'i gartref i'r Brifysgol (ei weithle) drwy ffurflen dreuliau. Fodd bynnag, gan wybod bod hyn yn erbyn polisi'r Brifysgol ac i helpu ei

gyflogai i efadu talu treth sy’n ddyledus ar yr hawliad, mae'n caniatáu i'r cyflogai ddisgrifio'r teithio fel pe bai ar gyfer teithiau dychmygol y tu allan i’r swyddfa.

Mae'r Cyfarwyddwr yn fwriadol yn caniatáu i'r cyflogai roi gwybodaeth anwir ar ei hawliad treuliau er mwyn efadu trethi ac mae'n cyflawni'r drosedd o gynorthwyo rhywun i efadu trethi.

Rheoli fersiwn

Fersiwn	6.0
Newidiadau	Diweddarwyd y Swyddog Cyfrifol i'r Prif Swyddog Ariannol yn unol â'r polisiau Twyll eraill Diweddarwyd amllder yr adolygiad o flynyddol i bob dwy flynedd Ychwanegwyd tudalen deitl
Dyddiad	24 Medi 2024
Perchennog	Y Prif Swyddog Ariannol

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddarau bob dwy flynedd, neu yn gynt yn dilyn newid mewn deddfwriaeth, newid o ran risg fewnol neu'n dilyn digwyddiad.